# Moses a'r Berth Danllyd



TRUEWAY KIDS.com

# Cyflwyniad

Video playlist

inc video lesson

Wythnos yma byddwn yn dysgu am stori Moses a'r berth danllyd. Gallwch ddarllen y darn yn Exodus 2:11 – 4:31. Rhai o'r prif bwyntiau byddwn yn canolbwyntio arnynt yw-

- Mae Duw yn rhoi ail gynigion i ni.
- Dylwn ufuddhau i Dduw heb esgusodion (Philipiaid 2:14-16)
- Mae Duw yn ein cyfarparu ac yn ein hawdurdodi.
- Hyd yn oed pan feddyliwn nad ydym yn medru gwneud rhywbeth, bydd Duw yn rhoi'r nerth i ni wneud beth mae eisiau i ni wneud.



## Canllaw'r wers

Atgoffwch y plentyn am Moses a sut cafodd ei fabwysiadu gan ferch Ffaro.

Eglurwch ystyr 'esgus' i'r plentyn. Pwyntiwch allan rhai o'r esgusodion bydd y plentyn yn arfer defnyddio i osgoi gwneud rhywbeth. Atgoffwch y plentyn mor bwysig ydi ufuddhau heb esgusodion.



Dewch a chacen allan gyda channwyll arno (neu dim ond y gannwyll). Goleuwch y gannwyll a gwyliwch wrth iddo feddalu. Gallwch hefyd gwneud tan fychan . gwnewch yn siŵr eich bod chi a'ch plentyn yn saff a dilynwch y deddfau diogelwch lleol i gyd. Gofynnwch i'r plentyn beth sy'n digwydd i'r peth sydd ar dan. Eglurwch i'r plentyn bod y tan yn dinistrio'r gannwyll neu eitem oherwydd mae tan yn llosgi pethau. Eglurwch byddai'n wyrth os na fyddai'n llosgi i gyd.



Eglurwch fod 'amhosib' yn meddwl bod rhywbeth ddim yn medru cael ei wneud. Gofynnwch i'r plentyn os yw erioed wedi meddwl bod rhywbeth yn amhosibl.

Caewch gaead jar wedi'i lenwi gyda losin yn dynn iawn. Gofynnwch I'r plentyn ei agor. Pan nad yw'r plentyn yn medru ei agor trwy ei nerth ei hun, cynigiwch helpu. Rhowch law'r plentyn dros eich llaw chi ac agorwch y jar gyda'ch gilydd. Pwyntiwch allan, er na allai'r plentyn agor y jar ar ben ei hun, gyda'ch gilydd roeddech yn llwyddiannus.



Atgoffwch y plentyn bod Duw yn gryf iawn a does dim byd nad yw'n medru gwneud. Dywedwch wrtho fod y pethau ni allwn ar ein pen ein hun— fel caru ein gelynion neu faddau pobl sy'n gwneud drwg i ni – dim ond yn bosib gyda Duw i'n helpu.

© 2022 truewaykids.com



O’r diwedd cytunodd Moses fynd i’r Aifft.

Addawodd Duw bod gyda Moses.

Anfonodd Duw brawd Moses i’w gwrdd.

Dywedodd Moses wrth Aaron popeth oedd Duw wedi dweud.

Aeth y ddau at yr Iddewon a dweud, “Bydd Duw yn ein rhyddhau.”



# Moses a’r Berth Danllyd



Un diwrnod gwelodd Moses rhywbeth rhyfedd.

Perth oedd yno ac roedd ar dan ond nid oedd yn llosgi fyny.

Galwodd lais ar Moses o’r berth danllyd!

Dywedodd, “Tynn dy sandalau i ffwrdd. Mae’r lle yma yn sanctaidd. Fi yw’r Arglwydd Dduw.”

Roedd ofn ar Moses. Cuddiodd ei wyneb.



Dywedodd Duw wrth Moses byddai yn achub ei fol o'r Aifft.

Dywedodd wrth Moses am ddweud wrth Ffaro i adael i'w bobl fynd.

Roedd Moses yn ofnus. Beth os byddai pobl ddim yn ei gredu?

Dywedodd Duw wrth Moses am daflu ei ffon ar y llawr. Trodd i mewn i neidr.

Gorchmynnodd Duw wrth Moses am gydio yn y neidr a throdd yn ôl yn ffon.





Roedd Moses dal yn ofnus.

Dywedodd Duw, "rho dy law tu mewn dy glogyn."

Rhoddodd Moses ei law i mewn a pan dynnodd e allan eto, roedd wedi'i orchuddio a gwahanglwyf. Gwnaeth yr un peth eto a daeth allan yn iach.

Ond parhau i wneud mwy o esgusodion oedd Moses.

# Chwaraeon a Gweithgareddau

## Tynnwch eich esgidiau

Tynnodd Moses ei esgidiau pan oedd ar Dir Sanctaidd.
Yn y gêm yma bydd y plant yn rasio i gael eu hesgidiau ymlaen a'u rhoi nôl 'mlaen.
Os oes gennych fwy nag un plentyn gallwch eu cael i roi eu 'sgidiau ar un ochr o'r ystafell ac i rasio drosodd, rhoi nhw 'mlaen a rasio nôl.
Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio 'sgidiau gall y plentyn rhoi 'mlaen yn hawdd. Mae sandalau a 'slip-ons' yn gweithio'n dda.





## Edrych ar dân

Gan fod y wers wythnos yma ynglŷn â thân, os yw'n ddiogel gwneud hyn, gwnewch un bach gyda'ch plentyn. Gwnewch yn siŵr i'w cadw rhag y mwg ac eglurwch beryglon tân iddynt.

Heb amheuaeth byddent wedi synnu i weld pethau'n llosgi. Eglurwch eto pa mor syfrdanol oedd bod y berth ar dân ond ddim yn llosgi o gwbl.




## Dal neidr

Gosodwch raff neu raff sgipio ar y llawr.

Wrth ddal un ochr, siglwch y rhaff ar hyd y llawr. Gofynnwch i'ch plentyn ceisio dal yr ochr arall gyda'i law.

Atgoffwch y plentyn o'r adeg cydiodd Moses mewn neidr ac fe ddychwelodd yn ffon.



© 2022 truewaykids.com

# Helpwch Moses ffeindio ei ddefaid coll

Sawl dafad gallwch chi ffeindio?




© 2022 truewaykids.com


Mae'r esgidiau yma mewn llanast mawr. Tynnwch linell i gydweddu'r parau.



© 2022 truewaykids.com

# Dilynwch y Neidr







© 2022 truewaykids.com


# Pa eitemau oedd yn y stori?






















© 2022 truewaykids.com

# Crefft y Berth Danllyd

## Pethau byddwch angen:

- Templed
- Siswrn
- Glud
- Papur hancesi lliw



## Beth i'w wneud:



Lliwiwch y llun.




Gludwch y papur hancesi ymlaen i wneud dail a thân.



Gadewch i sychu.

https://youtu.be/lRPNGhRHGRo

© 2022 truewaykids.com




© 2022 truewaykids.com

© 2022 truewaykids.com




© 2022 truewaykids.com



© 2022 truewaykids.com





© 2022 truewaykids.com

# Amser addoli

Argymhellir caneuon addoli, heb eu cynhyrchu gan Trueway Kids.  Fideos 'You Tube' i'w defnyddio at ddefnydd personol yn unig.



## Obey, Obey The Lord

https://youtu.be/glD4-xl1Amg

## God takes care of me

https://youtu.be/ToY_gFoheEw

## Listen and Obey

https://youtu.be/_LgewlAF-AU




# Amser Gweddi

Diolchwch i Dduw am eich helpu ac am fod gyda chi trwy'r amser.

Gofynnwch i Dduw eich helpu i fod yn ufudd Iddo ac i wneud y pethau mae E'n gofyn.

## Wythnos nesaf
## Y plâu




Os nad ydych wedi gwneud yn barod, cytunwch i dderbyn gwersi yn y dyfodol trwy e-bost.
truewaykids.com/subscribe/

© 2022 truewaykids.com